Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Tir na n-Og:  Canolfan Gofal Dydd ac Ymchwil i Blant

**Prifysgol Bangor**
**Safle'r Normal**
**Ffordd Caergybi,**
**Bangor**
**LL57 2PZ**

**Dyddiad yr arolygiad:  Mai 2023**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

# Ynglŷn â Tir na n-Og: Canolfan Gofal Dydd ac Ymchwil i Blant

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Tir na n-Og: Canolfan Gofal Dydd ac Ymchwil i Blant |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn |
| Person(au) cofrestredig | |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Richard Bennett a Kevin Mundy |
| Person â gofal | Evelyn Parry, Hayley Roberts, Sharon Thomas a Shelley Williams |
| Nifer y lleoedd | 50 |
| Amrediad oedran y plant | 3 mis i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 20 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 5 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener o 8:00yb tan 6:00yh |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Dwyieithog |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 18/11/2022 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 02/02/2015 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 04/05/2023 |
| Tua chwarter o'r plant sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Amh** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod asesiadau a chynllunio'r ymarferwyr yn ymateb yn llawn i anghenion bob plentyn

A2 Sicrhau bod asesiadau risg yn cyfatebu â gofynion cyfredol y lleoliad

A3 Gwella'r cyfathrebu â rhieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt yn y lleoliad. Maent yn symud o'r ardaloedd chwarae tu mewn a thu allan yn annibynnol, ac yn cynnal diddordeb yn eu gwaith am gyfnodau estynedig.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn hapus, yn teimlo'n ddiogel ac wedi ymgartrefu'n dda. Maent yn weithgar ac yn mynegi brwdfrydedd a mwynhad yn eu chwarae a'u dysgu. Mae'r rhan fwyaf yn gyfathrebwyr hyderus ac maent yn siarad ac yn mynegi eu hunain yn effeithiol. Er enghraifft, mae plant yn cyfarch ymarferwyr a'u ffrindiau wrth gyrraedd y lleoliad gyda gwên. Yn ogystal, maent yn siarad am eu hoff weithgareddau yn frwdfrydig, sy'n cynnwys creu stori ddychmygol gyda dinosoriaid.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda â gweithgareddau effeithlon y lleoliad, sy'n cydnabod ac yn cefnogi anghenion unigolion yn dda. Maent yn gyfarwydd â'r arferion dyddiol fel golchi a sychu eu dwylo cyn amseroedd bwyd ac ar ôl chwarae tu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynd at ymarferwyr yn rhwydd i wneud ceisiadau ac am gysur pan mae'r angen yn codi. Maent yn teimlo'n gyfforddus yng nghwmni'r ymarferwyr ac yn mwynhau gwrando arnynt yn canu caneuon iddynt.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'u ffrindiau a'r ymarferwyr ac yn teimlo eu bod nhw'n cael i'w gwerthfawrogi. Maent yn mwynhau cymdeithasu ag

eraill yn ystod amser byrbryd ac yn datblygu agweddau ac arferion da. Maent yn dysgu rhannu a chymryd eu tro yn bwrpasol. Er enghraifft, maent yn helpu ei gilydd i lenwi bwcedi o feintiau gwahanol tra’n chwarae yn y twb tywod a chymryd eu tro i gymysgu mwd a brigau gyda llwyau. Yn ogystal, mae’r rhan fwyaf o blant yn dysgu am garedigrwydd tuag at eraill yn dda. Er enghraifft, maent yn golchi doliau yn y bath ac yn sgwrsio’n ddeallus gydag ymarferwyr ynglŷn â gwisgo’r doliau mewn dillad cynnes.

Caiff y rhan fwyaf o blant ryddid i ymchwilio eu hamgylchedd yn ddiogel. Mae ganddynt lais effeithiol i ddewis a datblygu eu syniadau’n dda. O ganlyniad, maent yn dewis eu gweithgareddau a phrofiadau dysgu a chwarae eu hunain yn hyderus. Er enghraifft, maent yn mwynhau gwisgo fel cymeriadau gwahanol cyn edmygu eu hedrychiad yn y drych. Mae’r plant hŷn yn gweithio’n ddiwyd fel tîm i ddatrys problemau fel symud ysgol bren i fyny'r twmpath ac ymarfer eu medrau cydbwyso tra’n cerdded ar draws planciau pren. Yn ogystal, yn ystod amser cylch, mae’r rhan fwyaf o blant yn canu eu hoff ganeuon a rhigymau gydag awch a brwdfrydedd.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus, sy’n eu galluogi i ddilyn eu diddordebau a gwneud pethau drostynt eu hunain. Maent yn canolbwyntio'n dda am gyfnodau priodol wrth iddynt ymgymryd ag ystod o weithgareddau a phrofiadau dysgu. Er enghraifft, wrth iddynt greu marciau a gwneud siapiau gwahanol gyda sialc a defnyddio ystod eang o nwyddau i addurno eu creadigaethau allan o does.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae’r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn ymateb i'w ceisiadau yn syth. Mae perthynas hyfryd yn bodoli rhyngddynt ac maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion, gan ddathlu eu cyflawniadau’n frwdfrydig. Mae gan ymarferwyr ddull cynnes a chyfeillgar ac maent yn cyfarch y plant gyda gwên a lleisiau tyner. Maent yn canmol y plant yn gadarnhaol am eu hymdrechion a'u llwyddiannau yn deyrngar.

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cofnodi presenoldeb plant yn brydlon ac mae ganddynt hyfforddiant cymorth cyntaf a hyfforddiant diogelu cyfredol ar waith. Cynhelir driliau tân yn rheolaidd a chofnodir y canlyniadau i gynorthwyo gwelliannau ymarferol yn effeithlon. Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni’r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae’r ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn cael byrbrydau iach a bod dŵr a llefrith ar gael iddynt. Maent yn trefnu gweithgareddau chwarae difyr yn yr awyr agored, gan annog y plant i chwarae’n frwd i feithrin eu medrau corfforol. Mae’r ymarferwyr yn

annog plant i olchi eu dwylo sy’n eu helpu i ddatblygu eu harferion hylendid personol yn llwyddiannus. Maent yn cwblhau cofnodion damweiniau a digwyddiadau yn drwyadl ac mae’r rhain wedi'u llofnodi gan rieni a gofalwyr. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn ymarfer gweithdrefnau newid clytiau, sy’n cyd-fynd â'r canllawiau cyfredol.

Mae’r ymarferwyr yn ymateb i anghenion unigol y rhan fwyaf o blant ac yn sicrhau amgylchedd cynhwysol ac yn rheoli rhyngweithiadau’n dda. Maent yn dilyn trefniadau cadarn er mwyn diwallu anghenion plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn synhwyrol. Mae’r ymarferwyr yn addasu’r cwricwlwm a threfnu profiadau dysgu a chwarae buddiol i’r plant ac yn eu cefnogi mewn ffordd sensitif a chadarnhaol. Yn ogystal, mae’r ymarferwyr yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad plant ac yn bodloni eu hanghenion unigol yn bwrpasol.

Mae’r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth plant o'u cymdeithas a diwylliannau ehangach yn effeithiol. Mae’r plant yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau diddorol gan gynnwys dysgu am ddiwylliant Tsieina a'r iaith Mandarin. Mae’r ymarferwyr yn trefnu gweithgareddau crefft i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi ac yn codi ymwybyddiaeth plant o’u treftadaeth Gymreig fel creu baner Cymru a pheintio daffodil. Mae’r ymarferwyr yn dysgu’r plant yn dda am yr amgylchedd ac yn eu hannog i ailgylchu eu gwastraff bwyd a’u sbwriel. Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd naturiol trwy blannu hadau a dyfrhau planhigion.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae medrau addysgu’r ymarferwyr yn cefnogi’r plant i ddatblygu ystod eang o fedrau defnyddiol, sy’n cael effaith dda ar eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth. Maent yn cymell y plant i gydweithio’n fwriadus ac yn eu hannog i arbrofi wrth chwarae. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu’n ddysgwyr annibynnol. Er enghraifft, mae’r ymarferwyr yn ysgogi’r plant i wneud marciau ar fyrddau du gyda sialc, ac i ddidoli a rhifo cregyn, moch coed a cherrig mân, cyn iddynt goginio ‘cacen’ yn y gegin fwd.

Ar y cyfan, mae’r ymarferwyr yn darparu gweithgareddau eang a chytbwys yn yr adeilad a thu allan, sy’n adlewyrchu awgrymiadau a diddordebau’r plant yn dda. Mae’r gweithgareddau difyr hyn yn galluogi'r plant i fentro a datblygu eu medrau gwybyddol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn herio’r plant i feistroli rholwyr a brwshys wrth beintio’r ffens â dŵr ac i adeiladu tyrau uchel ac isel gyda siapiau tri-dimensiwn.

Mae'r ymarferwyr yn ymyrryd yn ddeallus yn ystod chwarae’r plant. Maent yn cynnig cyfleoedd da i’r plant ystyried llwyddiant eu hymdrechion ac unrhyw welliannau sydd angen eu gweithredu. Maent yn cynnal trafodaethau cyson gyda'r plant ar sut i arbrofi a datblygu eu gwaith ymhellach wrth chwarae. Maent yn plethu’r sgyrsiau rheolaidd hyn gyda’u hasesiadau yn foddhaol, i geisio cynllunio’r camau nesaf yn nysgu plant unigol. O ganlyniad, mae’r ymarferwyr yn cynllunio’n addas wrth gefnogi’r plant i ddysgu trwy amrediad o heriau ymarferol. Fodd bynnag, nid yw’r ymarferwyr yn

defnyddio'r wybodaeth yn ddigon effeithiol wrth gynllunio'r camau nesaf yn nysgu a chwarae plant unigol.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd y plant. Ar y cyfan, mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith da ac yn hyrwyddo datblygiad iaith plant, fel ymestyn eu geirfa yn effeithiol. Maent yn holi'r plant yn ystyrlon wrth iddynt greu marciau gyda phaent a chreonau a'u hannog i bwyso llythrennau mewn clorian. Yn ogystal, maent yn cynnig cyfleoedd cyson i wella medrau digidol cynnar y plant, er enghraifft wrth ddefnyddio apiau addysgol ar lechi electronig ac i raglennu robotau electronig.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn datblygu eu medrau corfforol yn llwyddiannus wrth eu hannog i yrru beiciau a cherbydau o gwmpas y buarth a chwifio rhubanau a baneri wrth ddawnsio'n frwd. Maent yn darparu gweithgareddau creadigol effeithiol fel gludo siapiau lliwgar i greu enfys. Yn ogystal, maent yn ysgogi'r plant i edafu siapiau gwahanol i greu mwclis ac yn annog y plant i chwarae rôl trwy wisgo fel arch arwyr a swyddogion y gwasanaethau brys.

Mae'r ymarferwyr yn datblygu medrau ysbrydol, moesol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo diwylliant Cymru'n dda trwy ddathlu diwrnod Santes Dwynwen a chanu rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Yn ogystal, maent yn dathlu amrywiaeth ac ymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill yn synhwyrol trwy astudio arferion Diwali, Ramadan a thraddodiadau Tsieiniaidd.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth briodol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant trwy drafodaethau llafar achlysurol a llyfrynnau cynnydd pan fyddant yn gadael y lleoliad.

**Yr amgylchedd:  Da**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu a chwarae sy'n ddiogel, yn gyfoethog ac yn cynnig cyfleoedd buddiol i blant tu mewn a thu allan i'r adeilad. Maent yn cwblhau asesiadau risg generig sy'n amlinellu'n fras y camau i'w cymryd i leihau neu atal risg i blant. Er hyn, nid yw'r rhain yn gwbl gyfredol nac yn adlewyrchu arferion y lleoliad a'r gweithgareddau yn ddigon clir. Mae'r arweinwyr wedi cynyddu'r trefniadau glanhau arferol ac maent yn dilyn y canllawiau cyfredol ar gyfer rheoli heintiau yn dda. Maent yn sicrhau bod yr holl ymarferwyr yn goruchwylio'r plant yn dda ac yn gwybod sut i ymateb i unrhyw argyfwng.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ardaloedd dysgu a chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth y plant yn dda. Mae hyn yn galluogi'r plant i symud o gwmpas yn rhydd, gan wneud dewisiadau i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae gan blant fynediad at ystod eang ac amrywiol o deganau, adnoddau a dodrefn o feintiau priodol. Mae hyn yn cynnwys dewis eang o adnoddau naturiol i feithrin medrau'r plant yn llwyddiannus. Mae teganau ac adnoddau wedi eu gosod yn gyfleus o fewn cyrraedd y plant, sy'n eu helpu i wneud penderfyniadau a dewisiadau am yr hyn y maent eisiau ei ddefnyddio. Mae gan y lleoliad ardal addas i blant storio eu heitemau personol, sy'n creu ymdeimlad o berthyn.

Mae arweinwyr yn sicrhau cyflenwad addas o adnoddau amlddiwylliannol i godi ymwybyddiaeth y plant o'u cymdeithas ehangach. Yn ogystal, maent yn defnyddio deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu a'u hailddefnyddio yn effeithiol i addurno'r ardal tu allan ac i ddysgu'r plant am bwysigrwydd gofalu am eu hamgylchedd. Mae arweinwyr hefyd yn sicrhau bod gwaith celf y plant yn cael ei arddangos yn ddeniadol yn yr oriel, sy'n rhoi ymdeimlad o falchder iddynt.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod strategaethau arwain y lleoliad yn gadarn ac maent yn canolbwyntio'n effeithiol ar wella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Mae eu gweledigaeth yn glir. O ganlyniad, maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n fwriadus i greu amgylchedd diddorol, sy'n hybu dysgu'r plant yn bwrpasol. Mae athroniaeth yr arweinwyr wedi ei seilio'n gadarn ar ddarparu awyrgylch, adnoddau a phrofiadau dysgu a chwarae effeithiol ar gyfer y plant. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cynnig gofal bugeiliol a theyrngar, sy'n creu ymdeimlad o berthyn ymysg y plant a'r oedolion. Mae'r ymdeimlad cadarnhaol hwn yn cymell y plant i wneud eu gorau ac i ddyfalbarhau wrth chwarae a dysgu.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm yn eu hystafelloedd penodol ac ar draws y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn gwrando'n synhwyrol ar sylwadau a chyngor arweinwyr a swyddogion yr asiantaethau cefnogi. Mae trefniadau rheolaidd ar waith i werthuso perfformiad ymarferwyr, ac maent yn goruchwylio a gwerthuso'u gwaith yn gydwybodol. Yn ogystal, maent yn sicrhau bod arferion recriwtio diogel yn cael eu gweithredu'n gywir.

Gosoda'r arweinwyr ddisgwyliadau cadarn ac maent yn cefnogi'r ymarferwyr i gynnal safonau uchel. Maent yn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion i'w gwella yn dda. Maent wedi sefydlu gweithdrefnau hunanwerthuso effeithlon sy'n arwain at dargedau priodol ar gyfer creu gwelliannau. Er enghraifft, yn ddiweddar, maent wedi adnabod yr angen i wella arferion asesu a chynllunio'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn dechrau canolbwyntio ar gyflwyno gwelliannau'n gyson er mwyn datblygu arferion y lleoliad ymhellach.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd synhwyrol o farnau pawb sy'n ymwneud â'r lleoliad i adnabod yr hyn maent yn gwneud yn dda a beth sydd angen ei gwella. Yn ogystal, maent yn ceisio gweithredu awgrymiadau'r rhieni a'r gofalwyr yn ystyrlon ac maent yn cyfathrebu'n dda ar lafar gyda rhieni a gofalwyr. Fodd bynnag, nid oes systemau rheolaidd ar waith i ddarparu gwybodaeth gyfredol ac amserol i rieni am gyflawniadau eu plant.

Mae'r arweinwyr wedi ffurfio ystod o bartneriaethau cadarn yn lleol, sy'n cynnig profiadau difyr i'r plant. Er enghraifft, gwahoddwyd myfyriwr o'r coleg i addysgu'r plant hŷn am arferion a ieithoedd Tsieina. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn mynd â'r plant am dro i gaffi lleol ac i astudio nodweddion y gwanwyn ar lonydd cyfagos.

Mae'r arweinwyr yn dyrannu adnoddau'n llwyddiannus. Maent yn defnyddio'r gyllideb a'r grantiau yn effeithiol ac yn blaenoriaethu gwariant yn erbyn targedau'r lleoliad yn ddoeth. Maent yn galluogi'r ymarferwyr i fynychu hyfforddiant bwriadus, sy'n gwella'u

harferion addysgu a'u gwybodaeth am ddatblygiad plant. Yn ogystal, maent yn cyllido adnoddau amrywiol yn effeithlon, fel tai bach twt, cegin fwd ac adnoddau digidol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 10/07/2023